

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Prif Weithredwyr – GIG Cymru
Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Rhagfyr 2018

Annwyl Gydweithwyr

Paratoadau i Adael yr Undeb Ewropeaidd

Fel y gwyddoch chi, mae posibilrwydd y gall Llywodraeth y DU adael yr UE heb gytundeb ar 29 Mawrth 2019. Mae felly'n hanfodol ein bod yn parhau i gynllunio a pharatoi ar gyfer yr amgylchiad hwn ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, gan ei bod yn bosibl na fydd ffurf derfynol unrhyw setliad yn hysbys tan y funud olaf.

Rwyf yn ysgrifennu atoch yn awr i'ch diweddarau ar ddatblygiadau diweddar mewn meysydd polisi allweddol, yn dilyn ein gohebiaeth flaenorol, er mwyn tynnu sylw at feysydd sydd angen sylw, cynllunio a gweithredu i sicrhau ein bod yn barod i adael yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r llythyr hwn yn seiliedig ar ein dealltwriaeth gyfredol o safbwynt Llywodraeth y DU, ar y sicrwydd diweddaraf a gafwyd gan Weinidogion a swyddogion Llywodraeth y DU, ac ar wybodaeth sydd wedi'i rhannu â Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â threfniadau parodrwydd y DU. Fel y byddwch yn deall, mae hon yn sefyllfa sy'n newid yn gyflym, ac felly bydd gohebiaeth reolaidd yn cael ei hategu gan ddogfen sy'n crynhoi'r Matrics Parodrwydd Brexit, a fydd yn cael ei rheoli gan Lywodraeth Cymru a'i rhannu fel 'dogfen fyw' drwy ein sianelau cyfathrebu ac atebolrwydd arferol, sy'n cynnwys cyfarfodydd Bwrdd Gweithredol GIG Cymru a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diweddariad i dybiaethau cynllunio traws-lywodraethol

Mae adrannau Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio i gynllunio trefniadau tollau a rheoli eraill ar ffiniau'r DU mewn ffordd a fydd yn sicrhau bod nwyddau'n parhau i lifo i'r wlad, ac na fyddant yn profi oedi oherwydd mesurau rheoli ac archwilio ychwanegol. Ar ochr y DU, mae'r gwaith hwn yn mynd yn ei flaen yn dda, ac ni fydd mesurau rheoli ac archwilio ychwanegol yn cael eu cyflwyno.

Fodd bynnag, nid oes gan Lywodraeth y DU reolaeth dros yr archwiliadau y bydd aelod-wladwriaethau'n eu gorfodi ar ffiniau'r UE. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datgan yn eglur, os na cheir cytundeb Brexit, y bydd yn gosod rheolaethau trydedd gwlad llawn ar bobl a nwyddau sy'n mynd i mewn i'r UE o'r DU.



BUDDSODDWYR | INVESTORS
MEWN POBL | IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0251182
Andrew.Goodall@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Er nad oes modd i ni wybod beth yn union fydd pob aelod-wladwriaeth yn ei wneud o ran archwiliadau ar ffiniau'r UE, mae tybiaethau cynllunio traws-lywodraethol wedi eu diwygio i baratoi am effeithiau posibl gosod rheolaethau trydedd gwlad gan aelod-wladwriaethau. Mae'r effeithiau hyn yn debygol o fod ar eu mwyaf dwys yn y manau croesi byr i Dover a Folkestone, lle mae natur aml a dolen gaeedig y croesiadau'n golygu y byddai allforion a mewforion yn cael eu heffeithio. Gallai hefyd effeithio ar borthladdoedd Cymru gyda thraffig yn ôl a blaen o Weriniaeth Iwerddon

Mae'r tybiaethau cynllunio traws-lywodraethol diweddaraf yn dangos y bydd mynediad ar draws croesiadau byr yn cael eu cyfyngu'n sylweddol, am hyd at chwe mis. Dyma'r amgylchiadau gwaethaf posibl ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn cynllunio ar gyfer pob amgylchiad.

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y byddai'n pwysu'n galed ar aelod-wladwriaethau i gyflwyno trefniadau pragmataidd i sicrhau bod y llif llawn o nwyddau'n parhau. Mewn meysydd lle na ellir goddef risg sylweddol i lif nwyddau, fel meddyginiaethau a chynhyrchion meddygol, bydd angen sicrhau bod cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer amgylchiadau fel hyn.

Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod pwysigrwydd hanfodol meddyginiaethau a chynhyrchion meddygol ac mae'n gweithio i sicrhau bod capasiti cludo gyrru ymlaen, gyrru i ffwrdd i alluogi'r cynhyrchion i symud yn ddidramgwydd i'r DU. Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno hefyd y bydd meddyginiaethau a chynhyrchion meddygol yn cael blaenoriaeth ar y llwybrau amgen hyn i sicrhau nad amherir ar lif y cynhyrchion hyn ar ôl 29 Mawrth 2019. Mae hyn yn cynnwys pob meddyginiaeth, gan gynnwys meddyginiaethau ar y rhestr gwerthiannau cyffredinol.

Cyflenwi meddyginiaethau a brechiadau

Ym mis Awst, ysgrifennodd Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) y DU at gwmnïau fferyllol sy'n cyflenwi'r DU â meddyginiaethau presgripsiwn yn unig neu fferyllfa o, neu drwy'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA). Gofynnwyd i gwmnïau sicrhau bod ganddynt gyflenwad am chwe wythnos yn ychwanegol o leiaf yn y DU, yn ychwanegol at y stoc dros ben gweithredol arferol, erbyn 29 Mawrth 2019 i baratoi ar gyfer amgylchiadau 'heb gytundeb' posibl.

Rydym ar ddeall bod y gyfradd ymateb gan y diwydiant wedi bod yn galonogol hyd yma, felly nid oes angen i sefydliadau yng Nghymru gysylltu'n uniongyrchol â chyflenwyr. Mae cynllun wrth gefn y DU gyfan yn cynnwys mesurau eraill hefyd, gan gynnwys trefniadau ar gyfer gludo meddyginiaethau ag oes silff fer, fel radio isotopau, ag awyr. Mae'r DHSC hefyd yn ystyried sut y gall helpu gweithgynhyrchwyr i gymryd rhan yn y gwaith cynllunio wrth gefn hwn. Bydd rhan o'r cymorth hwn yn cynnwys arian i greu capasiti ychwanegol i storio meddyginiaethau. Mae proses o gyflwyno ceisiadau am yr arian hwn wedi'i chynnal yn ystod yr wythnosau diwethaf a bydd cytundebau contract yn cael eu llofnodi'n fuan.

Er bod y gweithgarwch pentyrru stoc chwe wythnos o feddyginiaethau'n rhan allweddol o gynllun wrth gefn y DU gyfan o hyd, mae'n amlwg y bydd angen yn awr i ategu hyn gyda chymorth ychwanegol o ganlyniad i'r newid yn y tybiaethau sy'n gysylltiedig â ffiniau a ddisgrifiwyd uchod. Er bod y dybiaeth gynllunio wedi'i diwygio, bydd y DHSC yn parhau i ddatblygu cynllun wrth gefn ar gyfer y DU gyfan gyda chwmnïau fferyllol.

Felly ni ddylai darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol y DU – gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal, meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol – bentyrru mwy o feddyginiaethau na lefelau stoc arferol eu busnes. Ni ddylai ychwaith fod angen i glinigwyr ysgrifennu presgripsiynau GIG hwy. Dylai sefydliadau'r GIG barhau i reoli problemau prinder drwy'r sianelau cyfathrebu presennol. Nid oes angen i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol bentyrru stoc yn lleol gan y gallai hynny achosi prinder mewn ardaloedd eraill, a allai beryglu gofal cleifion.

Mae swyddogion yn Public Health England yn arwain rhaglen ar wahân i sicrhau parhad cyflenwadau brechiadau sy'n cael eu prynu'n ganolog a chynhyrchion eraill sy'n cael eu dosbarthu i'r GIG ar gyfer Rhaglen Imiwneiddio Genedlaethol y DU neu sy'n cael eu defnyddio i ddibenion iechyd cyhoeddus brys.

Cyflenwi dyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol

Ar 23 Hydref 2018, ysgrifennodd y DHSC at gyflenwyr y cynhyrchion hyn i egluro'r mesurau wrth gefn mae'r Adran yn eu cymryd i gynyddu lefelau stoc dyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol yn Lloegr a phan yn berthnasol, ledled y DU. Mae swyddogion Cadwyn Gyflenwi'r GIG yn cysylltu â chyflenwyr sy'n mewnforio cynhyrchion o'r UE i ganfod pa gamau sydd angen eu cymryd i wneud hyn. Ochr yn ochr â hyn, mae'r DHSC yn gofyn i bob cyflenwr sy'n prynu cynhyrchion o'r UE i adolygu eu cadwynau cyflenwi fel bydd y system iechyd a gofal yn gallu cael gafael ar yr holl gynhyrchion fydd eu hangen. Mae hefyd yn datblygu cynlluniau i sicrhau y bydd symudiadau rhwydd dyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol sy'n cael eu cyflenwi o'r UE yn uniongyrchol i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau'r GIG yn parhau.

Bydd dadansoddiad o'r defnydd o ddyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol yn y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru wedi'i gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr a bydd yn canfod pa fesurau wrth gefn penodol sydd angen eu cyflwyno yng Nghymru. Byddaf yn ysgrifennu atoch yn y Flwyddyn Newydd gyda rhagor o fanylion.

Ar sail y dadansoddiadau sydd wedi'u cwblhau eisoes, ac er bod tybiaeth gynllunio'r DU wedi newid, nid oes angen ar hyn o bryd i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru bentyrru mwy o ddyfeisiadau meddygol a deunyddiau traul clinigol nag sydd ganddynt ar gyfer eu lefelau stoc arferol.

Cyflenwi gwaed a chynhyrchion eraill â tharddiad dynol

Ar 23 Awst 2018, cyhoeddodd y DHSC ddau ganllaw ar sicrhau ansawdd a diogelwch gwaed a chydrannau gwaed, ac organau, meinweoedd a chelloedd yn achos Brexit 'heb gytundeb'. Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb, ni fydd Cyfarwydddebau Gwaed yr UE, Cyfarwydddebau Organau'r UE a Chyfarwydddebau Meinweoedd a Chelloedd yr UE bellach yn weithredol yn y DU. Mae'r DU eisoes yn gweithredu'r cyfarwydddebau hyn, felly ni fyddai safonau diogelwch ac ansawdd yn newid ar ôl gadael yr UE. Byddai'r DU, fodd bynnag, yn 'drydedd gwlad' wedyn a bydd y gyfraith yn cael ei newid o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) i adlewyrchu'r newid hwn. Hefyd, bydd Deddf yr UE (Ymadael) yn galluogi Llywodraeth y DU i ddiweddarau'r darpariaethau yn y DU i ymateb i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg, i newid safonau diogelwch ac ansawdd, a datblygiadau technolegol.

Er bod y tybiaethau cynllunio wedi eu newid, mae'r DU yn hunangynhaliol ar y cyfan mewn cyflenwadau gwaed a chydrannau gwaed. Er mwyn bod yn barod, mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn gweithio â GIG Cymru a'i brif gyflenwyr i baratoi ar gyfer unrhyw amhariad posibl. Hefyd, mae'r gwasanaethau gwaed ymhob un o wledydd y DU yn cydweithio'n glos ac mae ganddynt gytundeb i helpu ei gilydd fel rhan o'u cytundebau wrth gefn cenedlaethol.

Fe'ch cynghorir i ymgynghori â'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd cyn mewnforio neu allforio gwaed neu gydrannau gwaed i'r neu o'r UE, a gellir cysylltu â swyddogion yn gmpinspectorate@mhra.gov.uk.

Mae Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG (NHSBT) hefyd yn gyfrifol am roddion organau a thrawsblannu yn y DU. Mae swyddogion yr NHSBT yn gweithio â'r rheoleiddiwr ar gyfer organau, yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA), i sicrhau bod cytundebau ysgrifenedig priodol ar waith â sefydliadau'r UE i ganiatáu parhad cyfnewid organau ar ôl 29 Mawrth 2019. Nid oes angen i ganolfannau trawsblannu gymryd unrhyw gamau pellach. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau'n ymwneud ag organau i'w trawsblannu, dylech gysylltu â swyddogion yr HTA.

Bydd angen i sefydliadau yn y DU sy'n mewnforio neu allforio meinweoedd neu gelloedd gael cytundebau ysgrifenedig â sefydliadau trwyddedig perthnasol yn yr UE i barhau i fewnforio ac allforio. Mae'r DHSC yn gweithio â rheoleiddwyr - yr HTA a'r Awdurdod Ffrwythlondeb ac Embryoleg Dynol (HFEA) – i sicrhau bod sefydliadau trwyddedig yn y DU yn barod i Ymadael â'r UE fel y bydd mewnforio meinweoedd a chelloedd o'r UE yn gallu parhau. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â meinweoedd a chelloedd nad ydynt yn atgenhedlol ar yr HTA. Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â chelloedd atgenhedlol at yr HFEA, a gellir cysylltu â swyddogion yn enquiristeam@hfea.gov.uk.

Cyflenwi deunyddiau traul, nwyddau a gwasanaethau anghlinigol

Mae'r DHSC wedi nodi categorïau o gyflenwyr cenedlaethol sy'n cyflenwi nwyddau a gwasanaethau anghlinigol y mae'n eu hadolygu a'u rheoli ar lefel y DU. Un enghraifft o gategori o'r fath yw bwyd, lle mae'r Adran yn ymgysylltu â chyflenwyr ac arbenigwyr iechyd i ganfod a chynllunio ar gyfer unrhyw eitemau bwyd a all brofi amhariad i'r cyflenwad o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE heb gytundeb. Mae'r DHSC yn cydweithio'n agos â'u cydweithwyr yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig i wneud dadansoddiad o'r maes hwn, a bydd canllawiau safonol yn cael eu datblygu ar gyfer darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar drefniadau amnewid addas yn achos unrhyw eitemau bwyd sy'n achos risg sy'n dod i'r amlwg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cadw mewn cysylltiad â'r DHSC ac adrannau eraill Llywodraeth y DU a bydd yn cyhoeddi diweddariadau'n ôl yr angen.

Y Gweithlu/Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Mae gwladolion yr UE yn chwarae rhan hanfodol yn ein system gofal ac iechyd, ac rydym am iddynt wybod bod ganddynt ddyfodol sefydlog yma ar ôl i'r DU adael yr UE. Rwyf wedi ysgrifennu o'r blaen gyda manylion am Gynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE a byddaf yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau pellach i gynllun y Swyddfa Gartref.

Oedolion a Phlant Agored i Niwed sy'n cael gofal

O dan arweiniad y Swyddfa Gartref, mae gwaith yn mynd yn ei flaen i ystyried y cymorth a all fod ei angen ar grwpiau agored i niwed sy'n cael gofal iechyd a chymdeithasol i wneud cais am Statws Preswyllo Sefydlog a rôl a chyfrifoldebau awdurdodau lleol ac, mewn rhai achosion, y byrddau iechyd lleol, i ddarparu cymorth o'r fath. Mae gweithdy'n cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd gyda rhanddeiliaid allweddol i ganfod y gwahanol grwpiau a fydd angen cymorth, rôl y gwahanol sefydliadau a dysgu allweddol yn sgil y treialon sy'n cael eu rhedeg yn Lloegr ar hyn o bryd.

Ymchwil a threialon clinigol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwmo i wasanaeth cystadleuol ar gyfer asesiadau treialon clinigol ar ôl gadael yr UE, beth bynnag fydd canlyniad y trafodaethau. Ar 12 Hydref 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllaw ar gyflenwi cynhyrchion meddyginiaethol ymchwiliol (IMPs) ar gyfer treialon clinigol os ceir Brexit 'heb gytundeb'.


Mae'r DHSC yn parhau i gysylltu â'r diwydiant gwyddorau bywyd ynglŷn â threialon ymchwil dan gontract ar gyfer IMP. Fodd bynnag, efallai bod eich sefydliad hefyd yn gysylltiedig â chynnal treialon sy'n cael eu cychwyn gan ymchwilwyr, treialon clinigol neu ymchwiliadau clinigol sy'n defnyddio dyfeisiadau meddygol. Rydym yn annog pob sefydliad sy'n cynnal y treialon clinigol neu'r ymchwiliadau clinigol hyn yng Nghymru i gysylltu â noddwyr y treialon ac astudiaethau i ddeall eu trefniadau ar gyfer sicrhau bod modd gwarantu parhad cadwynau cyflenwi ar gyfer treialon clinigol IMP a dyfeisiadau meddygol sy'n dod o, neu drwy'r UE neu'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (EEA) os byddai oedi wrth ffiniau.

Cynlluniau parhad busnes

Dylai'r system iechyd a gofal barhau i baratoi ar gyfer Brexit 'heb gytundeb', a bydd hyn yn rhan yn rhan o gynlluniau parhad busnesau lleol. Dylai'r cynlluniau hyn barhau i gael eu diweddarau i ystyried Brexit 'heb gytundeb', a dylai sefydliadau fabwysiadu meddylfryd 'achos gwaethaf posibl rhesymol'.

Bydd angen i chi barhau i wneud cysylltiadau ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ac er bod sefydliadau'n gyfrifol am eu cynlluniau parhad busnes eu hunain, bydd angen i chi gysylltu â phartneriaid lleol a rhanbarthol, drwy Fforymau Cydnerthedd Lleol, i gyd-adolygu trefniadau i baratoi ar gyfer ymarfer am 'Brexit heb gytundeb' yn ystod Ionawr/Chwefror 2019 (byddant yn cael eu canslo os bydd cytundeb wedi'i gadarnhau).

Mae natur gyfnewidiol Brexit yn golygu y gall pethau newid yn gyflym iawn. Rwyf yn cydnabod y gall hyn fod yn her, yn enwedig o gofio'r pwysau rydych yn eu hwynebu eisoes wrth geisio darparu gwasanaethau. Er hynny, bydd angen i ni fod yn barod i ddelio â beth bynnag a ddaw yn sgil Brexit, gan gydweithio'n glos â'n partneriaid gofal cymdeithasol a'r sector cyhoeddus ehangach.



Andrew Goodall